

# Tabl Gweithredu

ADRAN CHWECH

# TABL GWEITHREDU






## BIOAMRYWIAETH

| Glaswelltir Carreg Galch<br>CAMAU | 2004 | 2005 | 2006 | 2007 | 2008 | 2009 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sicrhau Cytundeb Rheoli adran 15 ar gyfer Bryn Prestatyn a Pharc Gwledig Loggerheads gyda CCGC | | 4 | | | | |
| Canfod faint o Laswelltir Carreg Galch a Phalmant sydd dan raglenni rheoli gweithredol erbyn 2006 | | 4 | | | | |
| Cael statws Gwarchodfa Natur i Fryn Prestatyn | | 4 | | | | |
| Monitro faint o laswelltir calch sydd yn yr AHNE bob 5 mlynedd trwy gyfrwng Arolygon Cynefin cyfnod 1 | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 |
| **Coedlannau Brasddeiliog<br>CAMAU** | | | | | | |
| Sicrhau bod holl goedwigoedd brasddeiliog ym meddiant y Cyngor yn y cynllun Grantiau Coedlannau | | 4 | | | | |
| Sicrhau Atodiad Lleoliadol yn y Cynllun Grantiau Coedlan gan y CC ar gyfer coedlan ffermydd yn yr AHNE i ddelio gyda chydbwysedd ariannu | | 4 | | | | |
| Monitro'r ardaloedd o goedlan sy'n dod i mewn i'r CGC a Chynlluniau Coedlannau Cynhenid bob 5 mlynedd. | | 4 | | | | |
| Sampl-fonitro Cynllun Grantiau Coedlannau ledled Bryniau Clwyd i sicrhau cyflawni amcanion bioamrywiaeth | | | 4 | | | |
| Cytuno rhaglen reoli ar gyfer Coedlan Bishops gyda Chymdeithas Amgylcheddol Prestatyn erbyn 2005 | | 4 | | | | |
| Cadarnhau cynllun gweithredu gyda'r Ymddiriedolaeth Coedlannau ar gyfer eu daliadau coedlan yn yr AHNE erbyn 2004 | 4 | | | | | |
| **Dyffrynnoedd Afonydd<br>CAMAU** | | | | | | |
| Ymgymryd ag un project rheoli cynefinoedd glannau afon ar Afon Alun neu Afon Chwiler bob blwyddyn trwy Dir Gofal, CDS neu Gynllun Grantiau Gwella Cefn Gwlad. | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 |
| Ymgymryd âgwaith monitro blynyddol ar boblogaethau dyfrgwn a llygod y dwr ar Afonydd Alun a Chwiler. | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 |
| Adeiladu twll dyfrgwn ym Mharc Gwledig Loggerheads. | | 4 | | | | |
| **Gweundir Grugog<br>CAMAU** | | | | | | |
| Cyflwyno cais i HLF ar gyfer project Grug a Bryngaerau. | | 4 | | | | |
| Canfod arferion amaethyddol presennol yn yr ucheldiroedd trwy gyfrwng project Grug a Bryngaerau. | | | 4 | | | |
| Canfod faint o weundir grugog sydd yna, trwy broject Grug a Bryngaerau, dan raglenni rheoli gweithredol erbyn 2006. | | | 4 | | | |
| Gweithio gyda Choleg Amaethyddol Llysfasi i ddarparu cyrsiau mewn sgiliau cefn gwlad fel rhan o'r cwrs Diploma Cenedlaethol. | | | 4 | 4 | | |




# BIOAMRYWIAETH

| Gweundir Grugog<br>CAMAU | 2004 | 2005 | 2006 | 2007 | 2008 | 2009 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ymgymryd ârheoli grug mewn un hectar a rheoli ymyl y goedwig ym Marc Gwledig Moel Famau | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 |
| Darparu cyllid CDS i annog porwyr i reoli'r grug ym Moel y Parc a Penycloddiau. | | 4 | 4 | 4 | | |
| Monitro poblogaeth y Grugiar Du ac adar ucheldirol eraill bob blwyddyn ym Moel Famau, Penycloddiau a Moel y Parc. | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 |
| Cael Cytundeb Tir Gofal ar Foel Famau a Moel y Parc erbyn 2006. | | | 4 | | | |



# AMGYLCHFYD HANESYDDOL

| Bryngeyrydd, Henebion Rhestredig<br>CAMAU | 2004 | 2005 | 2006 | 2007 | 2008 | 2009 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Defnyddio proses cais Cronfa Dreftadaeth y Loteri Grug a Bryngeyrydd (2004-8) i weithredu arolwg, gwaith atgyweirio erydiad a strategaethau dehongli ar gyfer bryngeyrydd Bryniau Clwyd. | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 |
| Ffurfioli cyfnewid gwybodaeth Cofnod Safleoedd a Henebion bob 6 mis. | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 |
| Sefydlu cysylltiad gyda pherchnogion Parciau Hanesyddol ym Mryniau Clwyd, o leiaf un project y flwyddyn. Cymorth ariannol posibl i ymgymryd âgwaith gwella megis plannu coed | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 |
| Gwneud cysylltiad gyda pherchnogion Parciau a Gerddi hanesyddol ym Mryniau Clwyd a sefydlu o leiaf 1 project bob blwyddyn.Canfod cyllid grant posibl ac ymgymryd âgwaith gwella megis plannu coed unigol. | | | | | 4 | |
| Datblygu cynllun rheoli ar gyfer y bryngaerau ym Mryniau Clwyd trwy gyfrwng Grug a ' r Caerau erbyn 2008. | | | | | 4 | |
| **Nodweddion Hanesyddol Bychain yn y Dirwedd<br>CAMAU** | | | | | | |
| Sefydlu fformat databas ar gyfer cofnodi'r nodweddion hyn | 4 | | | | | |
| Casglu data gan gymunedau | | | | 4 | | |
| Cynnal sesiwn DPP ar gyfer staff proffesiynol Cynllunio Lleol ac Awdurdod Priffyrdd | | | 4 | | | |
| Sefydlu Pencampwyr Cymunedol. | | | | 4 | | |
| **Ffiniau<br>CAMAU** | | | | | | |
| Casglu gwybodaeth ar gyflwr presennol ffiniau ledled yr AHNE. | | | | 4 | | |
| Targedu cynllun Grantiau Cefn Gwlad a CDS i hwyluso gwella ffiniau. | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 |
| Cysylltu gyda swyddogion Tir Gofal i wyro cymorth grant i ardaloedd/ffiniau a nodwyd fel rhai sydd agnen gofal a chadwraeth wrth i wybodaeth ddod o'r arolwg ffiniau. | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 |
| Gweithio gyda Choleg Amaeth Llysfasi i ddarparu cyrsiau hyfforddi mewn Sgiliau Cefn Gwlad fel rhan o'r cwrs Diploma Cenedlaethol. | | 4 | 4 | | | |
| Parhau i gynnig dyddiau hyfforddi i wirfoddolwyr cefn gwlad Sir y Fflint a Sir Ddinbych ar gyfer plygu gwyrch ac adeiladu muriau sychion. | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 |

# MYNEDIAD AC ADLONIANT

| Parciau Gwledig<br>CAMAU | 2004 | 2005 | 2006 | 2007 | 2008 | 2009 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cychwyn project gwella mynediad rhwng Loggerheads a Moel Famau trwy uwchraddio hawliau tramwy a darparu gwybodaeth | | 4 | | | | |
| Cyhoeddi cynllun rheoli cyfun ar gyfer Loggerheads, Moel Famau a Choedwig Moel Famau ar y cyd gyda Menter Coedwigaeth a phartneriaid eraill. | | | 4 | | | |
| Cwblhau un project rheoli erydiad ym mhob safle bob blwyddyn | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 |
| Darparu cyllid trwy CDS i ddatblygu gwasanaethau bws Bryniau Clwyd a Loggerheads i roddi mwy o fynediad i'r parciau gwledig. | | 4 | 4 | 4 | | |
| Darparu gwybodaeth ar y safle yn ymwneud â Chôd Ymarfer yr RSPB ar Y Grugiar Ddu ym Moel Famau ar adegau sensitif trwy gydol oes y cynllun. | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 |
| Darparu gwybodaeth ar y safle yn ymwneud â gwaith cadwraeth coed ym Mharc Gwledig Loggerheads. | | 4 | 4 | | | |
| Ail-sefydlu Ymgyrch Aflonyddu ar Ddefaid adeg wyna erbyn 2005 a thargedu Parc Gwledig Moel Famau. | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 |
| **Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa<br>CAMAU** | | | | | | |
| Datblygu rhaglen barhaus i adnewyddu dodrefn, adnewyddu pum camfa a phum mynegbost bob blwyddyn. | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 |
| Ymgymryd ag asesiad o erydiad ar hyd y llwybr a chyhoeddi cynllun gweithredu ar gyfer gwaith adfer. Ymgymryd ag un project y flwyddyn. | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 |
| Cynnal o leiaf dri chyfrifydd pobl electronig ar y llwybr ac arolygu'r sefyllfa bob dwy flynedd. | 4 | 4 | | | 4 | |
| Ymgymryd â holiaduron ymwelwyr mewn lleoliadau allweddol bob dwy flynedd. | 4 | 4 | | | 4 | |
| Ymgymryd â phroject bob blwyddyn a fydd yn gwella'r rhwydwaith hawliau tramwy yn cysylltu'r llwybr gydag aneddiadau, busnesau a mannau eraill o ddiddordeb. | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 |
| **Rhwydwaith Hawliau Tramwy<br>CAMAU** | | | | | | |
| Sicrhau bod holl hawliau tramwy ar safleoedd ym meddiant y Gwasanaeth Cefn Gwlad a Menter Coedwigaeth yn agored. | | 4 | | | | |
| Sicrhau bod holl hawliau tramwy ar ffermydd ym meddiant y Sir yn agored. | | | 4 | | | |
| Ymgymryd â gwaith gwella i lwybrau yn cysylltu Moel Famau, Loggerheads, Moel Findeg a Dyffryn Alun a hybu'r ardal fel canolbwynt i deuluoedd. | | | 4 | | | |
| Ymestyn project beicio mynydd beiciobryniauclwyd.com i ymgymryd â gwelliannau yn y maes er mwyn sicrhau safon uchel i fynegbyst a rheoli erydiad. | | | 4 | | | |
| Sefydlu cynrychiolaeth Ffora Mynediad Lleol Sir y Fflint a Sir Ddinbych ar y Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol. | 4 | | | | | |
| Ymgymryd ag un project gwella hawl tramwy yn yr AHNE bob blwyddyn gyda'r nod o wella hygyrchedd i ardaloedd poblogaidd. | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 |








# DIWYLLIANT A PHOBL

| Yr Amgylchfyd Adeiliedig<br>CAMAU | 2004 | 2005 | 2006 | 2007 | 2008 | 2009 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cael canllawiau dylunio ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau a thriniaeth ffiniau yn yr AHNE. | | | | | 4 | |
| Datblygu, ar y cyd gyda'r awdurdod cynllunio, ganllawiau cynllunio ategol i annog datblygiad priodol yn yr AHNE. | | | 4 | | | |
| Bod y CBY a Swyddogion yn cael eu cysylltu ar holl geisiadau cynllunio a chynlluniau sy'n effeithio'r AHNE ac i'r Awdurdodau Cynllunio fabwysiadu o leiaf 75% o'u hargymhellion. | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 |
| Cael gwerthusiadau cadwraeth ar gyfer pob un o'r 11 ardal gadwraeth pentref. | | | | | 4 | |
| Creu 2 daith hunan-dywys y flwyddyn o amgylch pentrefi yn yr Ardaloedd Cadwraeth a fydd yn dathlu pensaerni' aeth a hanes y pentrefi, a hefyd darparu cyfle 'Cerdded y Ffordd i Iechyd'. | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 |
| Cefnogi adeiladu 5 tai fforddiadwy y flwyddyn sydd yn bodloni safonau uchel o ran deunyddiau ac sy'n ynni-effeithiol. | | 4 | 4 | | | 4 |
| Ymgymryd ag archwiliad o'r adeiladau cynhenid ledled yr AHNE. | | 4 | 4 | | | 4 |
| **Cymunedau Cynaliadwy ac Amrywiaeth Ddiwylliannol<br>CAMAU** | | | | | | |
| Cefnogi un project busnes y flwyddyn trwy CDS. | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 |
| Hybu defnydd cynnyrch lleol ble bynnag y bo modd. | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 |
| Parhau i ddiweddaru yn flynyddol ddatabas busnesau yn yr AHNE. | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 |
| Sefydlu menter trefi bach a phentrefi yn yr AHNE er mwyn cefnogi grwpiau busnes presennol a newydd yn yr AHNE. | | | 4 | | | |
| Ymgymryd ag archwiliad o gyfleusterau presennol ac asesu'r galw am gyfleusterau ychwanegol, wrth ystyried hygyrchedd a datblygiad cymunedol. | | | | 4 | | |
| Darparu cysylltiad cludiant cyhoeddus i bob pentref yn yr AHNE 7 diwrnod yr wythnos. | | | | | 4 | |
| Cysylltu gydag ysgolion yn yr AHNE trwy gyfrwng un project cyllid CSD y flwyddyn. | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 |
| Cael cynllun artist preswyl ym mhob blwyddyn ariannol i ddathlu tirwedd yr AHNE. | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 |
| Cael projectau celfyddyd cymunedol bob 3 blynedd. | | | 4 | 4 | | |
| Rhoi cefnogaeth ariannol i ddigwyddiad ieuenctid/clwb ieuenctid bob blwyddyn e.e. Rali Ffermwyr Ifanc 2003. | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 |
| Codi proffil yr AHNE mewn 4 digwyddiad lleol bob blwyddyn, trwy gyfrwng presenoldeb y gwasanaeth AHNE. | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 |
| Ymgymryd âmapio cymunedol i ganfod cymysgedd diwylliannol cymunedau yn yr AHNE ac ymgorffori hyn yn y Cynlluniau Datblygiad Unedol. | | | | 4 | | |
| Trefnu dyddiau atgofion cymunedol i gysylltu gyda chymunedau a chael eu gwybodaeth hwy am yr ardal. | | 4 | | 4 | | |
| Datblygu partneriaeth gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg i hybu a dathlu'r iaith a'r diwylilant Cymreig. | | | 4 | | | |



## Atodiad Un:

# Y Broses Ymgynghorol

I sicrhau bod y cynllun rheoli yn berthnasol i'r bobl sy'n byw yn ac yn defnyddio'r AHNE, bu ymgynghori eang trwy gydol y broses cynllunio rheolaeth. Datblygodd y Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol restr ddrafft o Nodweddion Arbennig ar gyfer Bryniau Clwyd. Pwrpas ymgynghori ehangach oedd herio'r rhestr hon i sicrhau bod y detholiad terfynol yn adlewyrchu barn holl gyfranddalwyr.

### i. Cyfarfodydd cymunedol

Cynhaliwyd pedwar cyfarfod yng Ngwaenysgor, Tremeirchion, Cilcain ac Eryrys. Gofynnwyd am farn pobl ar yr hyn yr oeddynt yn ystyried i fod yn nodweddion arbennig yr AHNE. Roedd bryngeyrydd, coedlannau, carreg galch a thirwedd yn themâu cryf ac o hyn lluniwyd rhestr gynhwysfawr ar gyfer ymgynghoriad pellach.

Gofynnwyd hefyd i gyfranogwyr fynegi eu prif bryderon o ran y pethau hynny a nodwyd eisoes fel rhai pwysig iddynt hwy a beth hoffent eu gweld yn y dyfodol. Gwahoddwyd sylwadau ar bapur hefyd.

### ii. Seminar Cynllun Rheoli AHNE

Cynhaliwyd hwn ar 5ed Tachwedd, 2003 yn y Pafiliwn Brenhinol, Llangollen.

Roedd y seminar yn rhan allweddol o'r ymgynghori, gan ddwyn ynghyd mwy na 60 o gyfranddalwyr, yn cynrychioli holl grwpiau diddordeb sydd â chysylltiad gyda'r AHNE, yn amrywio o dirfeddianwyr a phorwyr, grwpiau megis Cymdeithas y Cerddwyr a'r clwb ogofau lleol, trigolion lleol a phartneriaid megis y Comisiwn Coedwigaeth, Cadwyn Clwyd, Bwrdd Croeso Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru.

Rhoddodd gyfle i bobl gyfleu persbectif eu mudiad ar reolaeth yr AHNE yn y dyfodol. Bydd eu cyfranogiad yn helpu sicrhau bod y Cynllun Rheoli yn creu cysylltiad penodol rhwng polisïau presennol ac i'r dyfodol o ran holl gyrff perthnasol.

Roedd y sesiwn ragarweiniol yn rhoi cyd-destun yr AHNE ac esbonio'r angen am strwythur cynllun rheoli newydd. Yna rhannwyd pawb yn grwpiau ffocws llai i annog trafodaeth ehangach.

Canolbwyntiodd y bore ar y weledigaeth ddrafft ar gyfer yr AHNE a thrafodaeth ar nodweddion arbennig i'w cynnwys yn y cynllun. Ar ôl trafodaeth, gofynnwyd i gynrychiolwyr ysgrifennu eu gweledigaeth hwy ar gyfer dyfodol Bryniau Clwyd (gweler tabl isod).

Yn ystod y prynhawn, rhannwyd pawb yn grwpiau eto ond gyda chymysgedd gwahanol i'r bore i sicrhau cyfnewid syniadau. Rhoddwyd grwp o nodweddion arbennig i bob grwp o fewn sectorau Bioamrywiaeth, Hanes, Mynediad, Diwylliant a Phobl – a gofynnwyd iddynt ystyried y prif bwysau ar bob nodwedd ac awgrymu ymatebion rheoli i liniaru hyn.

Dadansoddwyd barn y grwpiau ffocws ac fe'u defnyddiwyd i newid gweledigaeth yr AHNE a rhestr nodweddion arbennig i'w cynnwys yn y cynllun rheoli. Mae'r sylwadau hefyd wedi helpu pennu amcanion mesuradwy ar gyfer rheolaeth o'r nodweddion arbennig hyn yn y cynllun.

### iii. Tabl – Ymgynghoriad ar 'Y Weledigaeth ar gyfer yr AHNE'

Gofynnwyd i bawb ysgrifennu eu gweledigaeth hwy ar gyfer dyfodol Bryniau Clwyd. Yr elfennau canlynol a ymddangosodd amlaf

| | Nifer o weithiau ymddangosodd mewn datganiadau gweledigaeth |
|---|---|
| Golygfeydd | 12 |
| Mynediad a rhwydwaith HT da | 12 |
| Heddwch | 6 |
| Iaith Gymraeg | 7 |
| Cymunedau ffyniannus – tafarndai, siopau ac ati | 10 |
| Bioamrywiaeth | 11 |
| Argaeledd gwybodaeth | 7 |
| Archaeoleg | 6 |






At hyn, nodwyd elfennau negyddol hefyd

| | Nifer o weithiau mdangosodd |
|---|---|
| Ofn datblygiad<br>Ofn gormod o bobl | 8<br>9 |

## iv. Ymgynghoriad cyhoeddus ychwanegol

### Gwaith arolygu

Arolygon ar 29ain Medi ym Mwlch Pen Barras ar y cyd gyda Swyddog Llwybr Clawdd Offa, ac fe ganfaswyd barn ymwelwyr ar yr ardal ganolog hon o'r AHNE. Ymgymerwyd â 60 arolwg gyda 230 o bobl. Roedd lefel foddhad uchel iawn ymhlith ymwelwyr, gyda mwy na 80% yn dweud eu bod yn hapus iawn a'r gweddill yn 'hapus'. Pan ofynnwyd iddynt beth oedd y peth gorau a welsant y diwrnod hwnnw, dywedodd 75% y golygfeydd. Mae hyn yn adlewyrchu darganfyddiadau'r seminar AHNE a bwysleisiodd bwysigrwydd golygfeydd yng ngweledigaeth cyfranddalwyr ar gyfer yr AHNE.

Arolygwyd pobl yn anffurfiol yn ystod penwythnosau'r haf y tu allan i swyddfeydd post yng Nghilcain, Bodfari a Llanarmon. Mae'r data yn dangos ymwybyddiaeth uchel o ddynodiad yr AHNE ymhlith pobl yn y cymunedau hyn (roedd dros 95% yn ymwybodol eu bod yn byw mewn AHNE), nododd nifer faint y maent yn gwerthfawrogi harddwch naturiol cefn gwlad o'u cwmpas. Roedd y Gwasanaeth Cefn Gwlad wedi bod yn arbennig o weithgar yma gyda'r 3 cymuned wedi gwneud cais llwyddiannus am gyllid SDF ar gyfer gwaith project. Mae cymunedau eraill yn llai gweithgar ac efallai'n llai ymwybodol o'r dynodiad AHNE. Mae llawer o ymwelwyr hefyd, tra'n rhoi gwerth uchel ar dirwedd yr ardal, nad ydynt efallai yn ymwybodol o'r dynodiad.

## v. Plant ysgol

Mae disgyblion blwyddyn 5 a 6 yn Ysgol y Foel, Cilcain, wedi gweithio gyda staff AHNE wrth ddatblygu ardal amgylcheddol ar dir yr ysgol. Yn ystod sesiwn yn y dosbarth ar wahanol dirweddau, gofynnwyd iddynt ddiffinio'r hyn oedd yn arbennig am AHNE Bryniau Clwyd. Cynhyrchwyd y rhestr ganlynol:

Mynyddoedd

Golygfeydd agored

Olion hanesyddol – twr Jiwbilî a bryngeyrydd Celtaidd

Coedwigoedd (coniffer)

Afonydd a ffosydd

Cronfeydd

Grug

Rhedyn

Coedlannau (brasddeiliog)

Moch daear a llwynogod

Bwncathod, tylluanod, cudyll coch

Cropiedydd ac adar eraill y goedlan

Carreg galch – ogofâu, ceunentydd, waliau ac adeiladau

Chwareli

Ffermio – caeau mawr, llawer o ddefaid, gwartheg

Trefi a phenrtrefi

Llwybrau a cherddwyr

Dwy iaith – Cymraeg a Saesneg

Atodiad Dau

# Cynlluniau perthnasol eraill

## ‘Woodlands for Wales’ – Strategaeth Cynulliad Cymru ar gyfer Coed a Choedlannau

Mae'r strategaeth yn nodi rhaglenni ar gyfer camau yn erbyn pum amcan strategol.

**1. Coedlannau i bobl**
- Defnyddio coedlannau fel ased cymdeithasol a diwylliannol i rai on cymunedau mwyaf difreintiedig
- Mwyafu defnydd coedlannau ar gyfer dysgu.
- Rhoi cyfle i gymunedau gael llais o ran rheoli coed yn agos i ble maent yn byw.

**2. Pwyslais newydd ar gyfer rheoli coedlannau**
- Hyrwyddo arferion gorau rheoli coedlannau
- Mwy o ddefnydd o systemau lloches barhaol
- Canfod safleoedd priodol ar gyfer coed a choedlannau newydd

**3. Cymru fel lleoliad ar gyfer diwydiannau coedwig dosbarth cyntaf**
- Darparu cefnogaeth fusnes effeithiol i ddiwydiannau coedwig Cymru.
- Datblygu'r gadwyn gyflenwi coed, datblygu nwyddau a marchnata.
- Darparu cefnogaeth i goedlannau fferm a'r economi gwledig ehangach
- Meithrin datblygiad ynni adnewyddadwy yn seiliedig ar bren.

**4. Amgylchedd amrywiol a iach**
- Gwarchod a gwella bioamrywiaeth ein coedlannau
- Gwarchod a gwella tirweddau Cymru
- Integreiddio coedlannau yn well gyda rheolaeth arall cefn gwlad

**5. Twristiaeth, adloniant a iechyd**
- Defnyddio coedlannau i helpu creu profiad safon uchel i ymwelwyr

Mae'r bartneriaeth ar hyn o bryd yn gweithio ar lwybr holl ddefnyddwyr yng nghoedwig Nercwys, gwell rhwydwaith llwybrau yng Nghoed Moel Famau gan gynnwys Llwybr Posau Anifeiliaid i deuluoedd ac ysgolion
- Hybu iechyd trwy gyfrwng mynediad i goedlannau i holl gymunedau Taith gylchol i fyny Moel Famau, yn defnyddio llwybrau coedwig – un o'r teithiau cyntaf i gyfrif caloriau a hybwyd gan FC.

## Strategaeth Bwrdd Croeso Cymru ‘Best Foot Forward – a Walking Tourism Strategy for Wales 2002-2010.

Darnau perthnasol:

Elfennau craidd y peth sy'n gwneud Cymru yn lle mor dda i gerdded yw:
- Safon, amrywiaeth a maint y wlad a'r golygfeydd arfordirol;
- Rhwydwaith hawliau tramwy eang;
- Diwylliant a threftadaeth cyfoethog Cymru a ellir eu canfod ar droed:
- Y teithiau a'r llwybrau lleol, cenedlaethol a rhanbarthol a ellir eu canfod ledled Cymru.

Mae'r elfennau craidd hyn yn cael eu cefnogi gan:
- Ystod eang o lyfrau tywys a thaflenni cerdded;
- Y croeso o roddi i gerddwyr gan nifer o weithredwyr llety ledled y wlad;
- Nifer cynyddol o wyliau cerdded ledled Cymru;
- Argaeledd teithiau tywys mewn nifer o fannau trwy gydol y flwyddyn;
- Nifer bychan ond cynyddol o wasanaethau cludiant cyhoeddus wedi eu haddasu yn benodol ar gyfer ymwelwyr sy'n cerdded;
- Ystod o ffynonellau gwybodaeth ar gyfleoedd cerdded lleol.






Atodiad Tri

## Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol

Rhestr o aelodau:

- Cyngor Sir Ddinbych – 6 aelod
- Cyngor Sir y Fflint – 4 aelod
- Cymdeithas Cynghorau Cymuned Sir y Fflint - 1 aelod
- Cymdeithas Cynghorau Cymuned Sir Ddinbych - 1 aelod
- Cymdeithas Tirfeddianwyr y Sir(CLA) – 1 aelod
- Undeb Ffermwyr Cymru (FUW) – 1 aelod
- Undeb Ffermwyr Cenedlaethol (NFU) – 1 aelod
- Ymgyrch i Warchod Cymru Wledig (CPRW) - 1 aelod
- Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru - 1 aelod
- Cymdeithas y Cerddwyr – 1 aelod
- Conffederasiwn Diwydiant Prydain – 1 aelod
- Twristiaeth y Gororau – 1 aelod
- Cymdeithas Ddinesig – 1 aelod

Etholir y cadeirydd a'r is-gadeirydd bob dwy flynedd o blith aelodau'r awdurdodau lleol.

Prif bwrpas y CBY yw:
Dwyn ynghyd fuddiannau allweddol AHNE Bryniau Clwyd i ystyried a chynghori ar gadwraeth a gwella harddwch naturiol a chymeriad penodol y dirwedd, gan gynnwys ei chyfansoddiad ffisegol, ecolegol a diwylliannol, ac yn bennaf:

I. Cynghori ar baratoi, gweithredu ac arolygu Strategaeth Rheoli'r AHNE.

II. Darparu fforwm ar gyfer trafodaeth a chynghori neu wneud cyflwyniadau ar faterion sy'n effeithio'r AHNE, gan gynnwys Cynlluniau Datblygiad Unedol, cynigion datblygu a mentrau eraill.

III. Hybu a rheoli mwynhad tawel anffurfiol AHNE Bryniau Clwyd cyn belled ag y bo hyn yn gydnaws gyda chadwraeth tirwedd.

IV. Talu sylw i faterion datblygu cymdeithasol ac economaidd a'u goblygiadau tirwedd yn yr AHNE

V. Codi proffil lleol a chenedlaethol yr AHNE a chynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r angen i warchod, gwella a rheoli'r dirwedd.